Eisteddfod Gadeiriol Capel Bryngwenith, Henllan, Llandysul, Ceredigion

Gwener, 14eg Ebrill 2023

Ar ôl cyfnod o dair blynedd yn dilyn y Pandemic Covid 19 daeth Eisteddfod Gadeiriol Capel Bryngwenith yn ôl er mawr llawenydd i bawb. Cadeirydd yr Eisteddfod eleni oedd Aelod Seneddol Ceredigion, Ben Lake. Arweinyddion - y Parchedig Carys Ann a Geraint James, Arwerthwr gyda chwmni Dai Lewis, Castell Newydd Emlyn. Beirniaid Cerdd oedd y Fns Gwawr Owen, Caerdydd a Beirniad Llèn a Llefaru oedd y Fns Bronwen Morgan, Llangeitho. Y gyfeilyddes oedd y Fns Lyn James, Adpar. Swyddogion Pwyllgor yr Eisteddfod yw y Parchedig Carys Ann, y Fns Elonwy James, y Fns Jillian Jones, y Fns Anne Lewis, y Fns Brenda Jones a Fns Nia ap Tegwyn. Gwerthfawrogir cymorth ymarferol y Bnr John Adams, Castell Newydd Emlyn; y Bnr Alan Davies, Penrhiw-pāl; y Bnr Emyr Jones, Castell Newydd Emlyn; y Bnr Maldwyn Lewis, Penrhiw-pāl fu yn gosod y llwyfan. Y Fns Morfydd Davies, y Fns Elsie Evans, y Fns Glenys Williams, y Fns Rhian Jones a'r Fns Rhiannon Price. Gyda diolch i unrhyw un arall fu yn gymorth mewn unrhyw fodd.

CANLYNIADAU

Cerddoriaeth

Unawd Blwyddyn 2 ac Iau Agored: 1af Neli Evans, Henbant, Talgarreg; 2il Marged Evans, Glanllyn, Penrhiw-pāl; 3ydd Non Thomas, Talgarreg.

Unawd Blwyddyn 3 – 4 Agored: 1af Sara Marged Lewis, Mydroilyn; 2il Elsa Evans, Pendre, Llanfihangel y Creuddyn.

Unawd Blwyddyn 5 – 6 Agored: 1af Efan Rhun Evans, Henbant, Talgarreg; 2il Iwan Marc Thomas, Pontarddulais; 3ydd Tirion Marged Thomas, Pencarreg.

Unawd Cyfyngedig i blant ysgolion cynradd sydd ā chysylltiad ā Gofalaeth y Parchedig Carys Ann, Blwyddyn 2 ac Iau: 1af Non Thomas, Talgarreg; 2il Neli Evans, Henbant, Talgarreg.

Blwyddyn 3- 6: 1af Efan Rhun Evans, Henbant, Talgarreg.

Parti Unsain dan 16 oed Agored: Parti Carreg y Creuddyn

Unawd Blwyddyn 7 – 11 Agored: 1af Sŵyn Efa Thomas, Pencarreg; 2il Fflur McConnell, Aberaeron.

Cān Werin dan 16 oed Agored: 1af Iwan Marc Thomas, Pontarddulais; 2il Fflur McConnell, Aberaeron.

Unawd Cerdd Dant dan 16 oed Agored: 1af Fflur McConnell, Aberaeron; 2il Efan Rhun Evans, Henbant, Talgarreg.

Canu Emyn dan 18 oed Agored allan o Caneuon Ffydd: 1af Meia Evans, Pendre, Llanfihangel y Creuddyn ac Efan Rhun Evans, Henbant, Talgarreg (yn gydradd); 2il Iwan Marc Thomas, Pontarddulais.

Unawd Gymraeg allan o unrhyw Sioe Gerdd: 1af Fflur McConell, Aberaeron.

Canu Emyn dros 50 oed Agored: Daniel Rees, Waungilwen.

Her Unawd Gymraeg Agored: Gerwyn Rhys, Porthyrhyd.

Triawd canu Emyn dros 18 oed Agored: 1af Gwyndaf James, Bryngwyn; Daniel Rees, Waungilwen a Gerwyn Rhys, Porthyrhyd.

LLEFARU

Llefaru Blwyddyn 2 ac iau. Agored: 1af Ifan Morris, 2il Bethan Llywelyn, Llanwnnen; 3ydd Neli Evans, Henbant, Talgarreg.

Llefaru Blwyddyn 3 – 4 Agored: 1af Sara Marged Lewis, Mydroilyn; 2il Elsa Evans, Pendre, Llanfihangel y Creuddyn.

Llefaru Blwyddyn 5 – 6 Agored: 1af Meia Evans, Pendre, Llanfihangel y Creuddyn; 2il Efan Rhun Evans, Henbant, Talgarreg; 3ydd Iwan Marc Thomas, Pontarddulais.

Llefaru Cyfyngedig i blant ysgolion cynradd ā chysylltiad ā Gofalaeth y Parchedig Carys Ann. Blwyddyn 2 ac iau: 1af Neli Evans, Henbant, Talgarreg 2il Non Thomas, Talgarreg.

Llefaru Cyfyngedig blwyddyn 3-6 i blant ā chysylltiad ā Gofalaeth y Parchedig Carys Ann: 1af Efan Rhun Evans, Henbant, Talgarreg.

Parti Cydadrodd dan 16 oed Agored: 1af Parti Ysgol Sul Capel Pisgah, Talgarreg.

Llefaru Blwyddyn 7 – 11 oed Agored: 1af Sŵyn Efa Thomas, Pencarreg.

Darllen Darn o'r Ysgrythur wedi ei osod ymlaen llaw ar eu cyfer - o dan 16 oed: 1af Fflur McConnell, Aberaeron; 2il Iwan Marc Thomas, Pontarddulais.

Darllen Darn o'r Ysgrythur wedi ei osod ymlaen llaw ar eu cyfer – dros 16 oed: 1af Maria Evans (gynt Alltwalis) Rhydargaeau.

Her Adroddiad Agored dros 21 oed: 1 Carol Davies, Trebedw; 2il Maria Evans (gynt Alltwalis) Rhydargaeau.

LLENYDDIAETH

Cystadleuaeth y Gadair: Cerdd ar y Testun 'Y Darlun' - enillydd Hannah Roberts, Caerdydd.
Roedd y Gadair yn rhoddedig gan Sue a Malcolm, Caerdydd yn rhoddedig am eu rhieni Raymond a Mair Morgan, gynt o Brynteg, Llandyfriog ac £20. Paratowyd negeseuon i gyfarch y bardd gan y Prifardd Idris Reynolds, Brynhoffnant. Methodd y Prifardd Idris Reynolds a bod yn bresennol serch hynny aethpwyd ymlaen ā'r Cadeirio, er nad oedd y bardd buddugol Hannah Roberts, Caerdydd yn bresennol.
Gwerthfawrogir arweiniad y Parchedig Carys Ann drwy Seremoni y Cadeirio. Canwyd Cān y Cadeirio yn arbennig iawn gan Gwyndaf James, Bryngwyn gyda Lynn James, Adpar yn cyfeilio ac yn rhan bwysig o'r seremoni.

Cafwyd cystadlu brwd a darllenwyd gwaith y Beirdd, gyda nifer fawr yn cael y cyfle i chwerthin a gwenu ar y darnau a'r feirniadaeth. Bu'r aelod Seneddol Ben Lake yn Gadeirydd yr Eisteddfod, gyda gwerthfawrogiad diffuant am ei eiriau o galondid a siars i'r dyfodol.

Gwerthfawrogir pob cyfraniad at lwyddiant y noson, y cyfraniadau Ariannol, yn arbennig Cyngor Sir Ceredigion, Pantyfedwen, 'Emlyn Circle' sef y Siop Cymunedol at achosion da yn nhref Castell Newydd Emlyn, Price y pobydd Betws Ifan a Cwmni bwyd Castell Howell .

Diolch i bawb am sicrhau bod Eisteddfod Gadeiriol Capel Bryngwenith Ebrill 2023 yn llwyddiant ysgubol.